

Tribiwnlys Disgyblu yr Eglwys yng Nghymru

Parchedig Joel A.C.R. Barder

Yn dilyn gwrandawriad a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2024, gorchmynnodd Tribiwnlys Disgyblu yr Eglwys yng Nghymru y dylid gwahardd y Parchedig Joel A.C.R. Barder, a arferai fod yn ficer tîm yn Ardal Weinidogaeth De-orllewin Penfro, rhag gweinidogaethu yn yr Eglwys yng Nghymru am gyfnod o flwyddyn o ddyddiad y gwrandawriad (dod i ben ar 30 Ionawr 2025). Ymhellach, gorchmynnodd y Tribiwnlys y byddai unrhyw ddychweliad dilynol i'r weinidogaeth yn destun rhaglen 2 flynedd o oruchwylio a chefnogaeth, ar ffurf i'w benderfynu gan yr Esgob Esgobaeth perthnasol mewn ymgynghoriad â Chofrestrydd yr Archesgob. Profodd y Tribiwnlys fod y cyhuddiad o 'ymddygiad sy'n rhoi achos cyfiawn i gywilydd neu dramgwydd' yn wir, yn dilyn ei gyfaddefiad.